# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL

# 11/02/2026

**Presenoldeb :**

**Y Cynghorwyr :** Menna Baines, John Pughe Roberts, Paul Rowlinson, Anne Lloyd-Jones a Jina Gwyrfai.

**Eraill:**

**Cristnogol a Chrefyddau Eraill ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol :** Edward Parri-Jones (Dyneiddwyr Eryri), Rev. Nick Sissons (Yr Eglwys Fethodistaidd).

**Athrawon :** Miriam A Amlyn (NAS/UWT).

**Swyddogion :** Buddug Mair Huws (Swyddog Adnoddau Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Phil Lord (Ymgynghorydd Annibynnol) a Jasmine Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:** Luke Donnellan.

**1. GWEDDI NEU FYFYRDOD TAWEL**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Nick Sissons.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg)
- Cynghorydd Elin Walker Jones
- Cynghorydd Meryl Roberts
- Eurfryn Davies (Undeb Bedyddwyr Cymru)
- Bethan Jones (yr Annibynwyr Cymraeg)
- Nathan Abrams (Iddewiaeth)
- Eleri Moss (Penaethiaid Uwchradd)

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**4. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2025 fel cofnodion cywir.

## 6. MATERION YN CODI

Cadarnhawyd bod enghreifftiau/templedi o bolisïau a drafodwyd yn y cyfarfod blaenorol wedi eu rhannu gydag ysgolion heddiw.

Cadarnhawyd bod enghreifftiau o gwestiynau i werthuso CGM ac Addoli ar y Cyd wedi eu hysgrifennu a'u cyfieithu, ac y byddent yn cael eu rhannu gyda'r aelodau yn fuan.

## 7. DYNEIDDIAETH - MANTEISION CYNNWYS ARGYOEDDIADAU ATHRONYDDOL ANGREFYDDOL YNG NGHWRICWLWM CGM

Cyflwynwyd yr eitem gan Luke Donnellan, Cyfarwyddwr Deall Dyneiddiaeth, 'Humanists UK', ar Ddyneiddiaeth a'r manteision o gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yng nghwricwlwm CGM. Yn ystod y cyflwyniad, trafodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod adran addysg 'Humanists UK' yn cefnogi athrawon mewn ysgolion ar draws y DU gydag adnoddau a gwasanaethau i addysgu am Ddyneiddiaeth fel rhan o addysg CGM eang a chytbwys.
- Rhoddwyd gwybodaeth gefndirol ynglŷn â CGM yng Nghymru, gan bwysleisio bod cwricwlwm CGM Cymru yn nodi'r angen i gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.
- Nodwyd bod argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn golygu "philosophical convictions which are based on a non-religious worldview as opposed to a religious worldview".
- Tanlinellwyd bod tri phrif fudd o gynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yng nghwricwlwm CGM, sef ei fod yn gyfoethog o ran gwybodaeth, ei fod yn cefnogi cyd-ddealltwriaeth a chydlyniant cymdeithasol, a'i fod yn annog datblygiad personol.
- Nodwyd bod pum prif gred yn gysylltiedig â Dyneiddiaeth, yn ogystal â'r ffaith ei bod yn anghrefyddol, sef bod pobl yn rhan o natur, bod dealltwriaeth wyddonol o'r byd yn bwysig, mai dim ond un bywyd sydd gan bawb, nad yw moeseg yn ddibynnol ar grefydd, a bod gan bobl gyfrifoldeb i wneud y byd yn well.
- Nodwyd bod cyfran uwch o boblogaeth Cymru yn nodi eu bod yn anghrefyddol (47%) nag yn grefyddol (44%) yn ôl canlyniadau'r cyfrifiad, gyda thua thraean i hanner y boblogaeth anghrefyddol yn arddel credoau Dyneiddiaeth.
- Nodwyd bod nifer o Gymry enwog hanesyddol yn cael eu hadnabod fel dyneiddwyr.
- Nodwyd bod sawl adnodd ar gael ar wefan 'Humanists UK', understandinghumanism.org.uk, er mwyn cefnogi addysgu am y pwnc, gydag adnoddau penodol i athrawon yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog.
- Nodwyd bod y llyfr 'My Humanist Family' ar gael er mwyn cefnogi addysgu am y pwnc i blant ifanc.

Diolchwyd am y cyflwyniad.

Cwestiynwyd faint o amser a roddir i addysgu Dyneiddiaeth mewn ysgolion. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yr ateb yn glir, ond bod tystiolaeth yn dangos nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i bwnc CGM yn gyffredinol, ac felly bod hynny'n effeithio ar y cyfle i ddisgyblion ddysgu am Ddyneiddiaeth. Nodwyd, er bod y cwricwlwm wedi newid, fod yr amser a neilltuir i argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn parhau i fod yn isel, o bosibl oherwydd y cyfnod trawsnewid i'r cwricwlwm newydd neu oherwydd gwrthwynebiad o fewn rhai ysgolion i'w cynnwys. Pwysleisiwyd bod 'Humanists UK' yn gwneud popeth o fewn ei allu i gyfathrebu ag ysgolion er mwyn cynnig adnoddau dysgu a hyfforddiant i helpu i hwyluso'r cyfnod trawsnewid hwn. Tanlinellwyd bod pethau'n gwella yn hyn o beth, ond bod llawer o waith i'w wneud o hyd.

Cwestiynwyd a oedd Dyneiddwyr yn dod at ei gilydd yn rheolaidd fel cymuned. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn amrywio o un Dyneiddiwr i'r llall. Nodwyd bod sefydliadau Dyneiddwyr, megis 'Humanists UK', yn cynnal digwyddiadau blynyddol, a bod grwpiau mwy lleol o Ddyneiddwyr yn cynnal digwyddiadau er mwyn hybu cymdeithasu. Pwysleisiwyd bod cyfleoedd ar gael, ond nad oedd unrhyw rwymedigaeth ar unigolion i gymryd rhan. Pwysleisiwyd bod mwy o waith i'w wneud ar lefel gymdeithasol i gefnogi pobl i deimlo ymdeimlad o berthyn i gymuned.

Cwestiynwyd sut yr oedd Dyneiddwyr yn ymdrin â moesoldeb a phechod o fewn eu hathroniaeth. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd y byd yn lle delfrydol, ond bod pethau ar y cyfan wedi gwella i bobl dros y blynyddoedd o ran safon byw, rhyddid a democratiaeth. Cydnabuwyd bod nifer o heriau yn parhau i wynebu'r byd, ac nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai pethau'n parhau i wella dros y blynyddoedd. Pwysleisiwyd nad athroniaeth ddelfrydol oedd Dyneiddiaeth, ond ei bod yn credu mewn ceisio creu byd gwell, nid byd perffaith, drwy weithredoedd dynol yn hytrach na thrwy bŵer dwyfol. Nodwyd bod Dyneiddwyr yn credu mewn ceisio cyfiawnder yn y bywyd hwn, yn hytrach nag mewn bywyd ar ôl marwolaeth. Pwysleisiwyd bod dioddefaint yn rhan o'r byd yr ydym yn byw ynddo, ac mai'r hyn y gellid ei wneud oedd ceisio ei leihau a'i liniaru lle bo hynny'n bosibl.

Cwestiynwyd a oedd lledaenu Dyneiddiaeth yn bwysig yn yr un ffordd ag yr oedd i Gristnogaeth. Mewn ymateb, nodwyd bod y rhan fwyaf o Ddyneiddwyr yn erbyn efengylu. Ymhelaethwyd nad oedd gan Ddyneiddiaeth nod o greu Dyneiddwyr newydd na lledaenu'r athroniaeth. Pwysleisiwyd bod Dyneiddwyr yn credu mewn rhyddid cred, ac yn cefnogi hawl pobl i ddysgu am amrywiaeth o grefyddau ac athroniaethau er mwyn eu galluogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain.

Cwestiynwyd faint o aelodau CYSAG mewn siroedd eraill yng Nghymru oedd yn Ddyneiddwyr. Mewn ymateb, pwysleisiwyd bod gan bob Pwyllgor CYSAG yng Nghymru gynrychiolydd Dyneiddwyr, a bod gan dros 90% o CYSAGau yn Lloegr gynrychiolaeth Ddyneiddwyr. Nodwyd bod hyn yn welliant sylweddol, gan mai dim ond tua 50% o CYSAGau oedd â chynrychiolaeth tua phum mlynedd yn ôl.

Cwestiynwyd a fyddai modd derbyn cyflwyniad gan bob cynrychiolaeth ffydd er mwyn i aelodau'r Pwyllgor dderbyn mwy o wybodaeth yn y maes. Mewn ymateb, nodwyd bod hyn yn syniad da, ac awgrymwyd gwahodd Nathan Abrams i roi cyflwyniad ar Iddewiaeth. Awgrymwyd hefyd y dylid anfon y cyflwyniadau ymlaen i ysgolion er mwyn iddynt gael eu defnyddio fel adnoddau dysgu.

Diolchwyd i Edward Parry-Jones am gyflwyno cais i fod yn aelod o GYSAG Gwynedd, gan bwysleisio bod ychwanegu cynrychiolaeth o grefyddau anghristnogol ac argyhoeddiadau anghrefyddol wedi bod yn gam enfawr ymlaen i'r Pwyllgor CYSAG.

## 8. CYNLLUN DATBLYGU CYSAG 2025-26

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord, Ymgynghorydd Annibynnol, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod modd defnyddio'r cynllun datblygu i esbonio, fel rhan o'r adroddiad blynyddol, yr hyn a gyflawnwyd.
- Bod tair prif flaenoriaeth yn y cynllun datblygu, sef datblygu effeithiolrwydd CYSAG, monitro a chefnogi darpariaeth AG a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ysgolion yr Awdurdod Lleol, a monitro a chefnogi darpariaeth addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod.
- Bod y gweithgareddau o dan flaenoriaeth un yn cynnwys sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn yr adroddiad blynyddol, gan gynnwys adnoddau perthnasol ar gyfer ysgolion.
- Bod y gweithgareddau o dan flaenoriaeth dau yn cynnwys darparu deunyddiau monitro a pholisïau enghreifftiol, gan gynnwys y polisi sy'n ymwneud â'r ffaith nad oes gan rieni hawl bellach i dynnu eu plant yn ôl o wersi CGM.
- Bod y gweithgareddau o dan flaenoriaeth tri yn cynnwys Cynghorwyr ac aelodau CYSAG sy'n llywodraethwyr ysgol yn treialu'r cwestiynau ac yn adrodd yn ôl i CYSAG.
- Bod y cynllun ar gyfer y flwyddyn hon, a bod modd ychwanegu gweithgareddau i'r cynllun yn y blynyddoedd i ddod.

Diolchwyd am y cyflwyniad. Mynegwyd y farn bod datgysylltiad rhwng yr hyn a oedd yn digwydd o fewn ysgolion a'r hyn yr oedd CYSAG yn ymwybodol ohono, ac felly croesawyd y cynllun datblygu a'i flaenoriaethau er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael dylanwad cadarnhaol ar ysgolion.

Cwestiynwyd yr amserlen, gan holi a oedd yn realistig y byddai popeth yn cael ei gyflawni erbyn tymor yr haf. Mewn ymateb, nodwyd bod yr adnoddau i'w cynnwys yn yr adroddiad blynyddol eisoes wedi eu creu. Nodwyd hefyd bod yr elfen o Lywodraethwyr yn mynd i ysgolion i dreialu cwestiynau yn ddibynnol ar gymorth yr aelodau er mwyn llwyddo i gyrraedd y targed amser.

Cwestiynwyd a oedd bwriad i aelodau CYSAG nad oeddent yn Llywodraethwyr fynd i ysgolion er mwyn treialu'r cwestiynau. Mewn ymateb, nodwyd mai'r bwriad oedd i aelodau oedd yn Llywodraethwyr dreialu'r cwestiynau yn gyntaf cyn ehangu'r drefn i aelodau eraill CYSAG. Awgrymwyd y dylai'r Adran Addysg ofyn i ysgolion nad oeddent yn gysylltiedig ag aelod o GYSAG wirfoddoli i dderbyn ymweliad gan aelod o GYSAG, er mwyn iddynt ofyn y cwestiynau ac arsylwi addoli ar y cyd o fewn eu hysgolion.

## 9. RHEOLI'R HAWL I DYNNU'N ÔL O CGM

Cyflwynwyd yr eitem gan Phil Lord, Ymgynghorydd Annibynnol, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod gwersi CGM, yn hanesyddol, wedi canolbwyntio llawer mwy ar gredoau Cristnogol lleol, ac felly bod teimlad ar y pryd bod yr hawl i dynnu'n ôl yn angenrheidiol.
- Bod gwersi CGM wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd i fod yn aml-gred, ond er hynny bod yr hawl i dynnu'n ôl wedi parhau tan 2022, pan ddiddymodd Llywodraeth Cymru hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o CGM.
- Bod achosion wedi codi lle'r oedd rhieni yn dymuno tynnu eu plant yn ôl o CGM, er nad oedd ganddynt yr hawl i wneud hynny, ac y gallai hyn greu problemau o fewn ysgolion.
- Bod y ddogfen wedi ei chynhyrchu er mwyn categoreiddio pryderon rhieni ynglŷn â CGM, a rhoi gwybodaeth ynglŷn â'r camau gweithredu gorau i ddelio â'r pryderon hynny.

- Bod y ddogfen yn mynd i fod yn ddefnyddiol i ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb mewn ffordd briodol pe bai unrhyw achosion neu bryderon yn codi yn y dyfodol.

Diolchwyd am y cyflwyniad. Nodwyd bod y ddogfen yn ddefnyddiol iawn, a'i bod yn well paratoi'n rhagweithiol yn hytrach nag aros i achos godi cyn creu dogfen i roi cymorth i ysgolion.

Cwestiynwyd a oedd bwriad i anfon copi o'r ddogfen i bob ysgol yn y sir. Mewn ymateb, awgrymwyd y dylai'r Adran Addysg wneud y ddogfen yn hygyrch ar SharePoint addysg er mwyn i athrawon wybod ei bod ar gael pe bai angen. Cwestiynwyd a oedd unrhyw ddogfennau o'r fath ar gael eisoes. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd dogfennau ar gael yng Ngwynedd ar gyfer ysgolion y sir.

Cwestiynwyd a oedd yr hawl i dynnu plant yn ôl o CGM yn cynnwys addoli ar y cyd. Mewn ymateb, nodwyd bod yr hawl i dynnu'n ôl o addoli ar y cyd yn parhau i fodoli.

Mynegwyd cefnogaeth i'r ddogfen ac i'w nod o gefnogi ysgolion i ddarparu CGM. Awgrymwyd newid y geiriad yn y ddogfen ynglŷn â gwrthod CGM am resymau hiliol neu resymau rhagfarnllyd.

**10. CCYSAGAUC**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2025.

Dechreuodd y cyfarfod am 3.40 y.p. a daeth i ben am 5:15 y.p.

________________________________

**CADEIRYDD**